




# EISTEDDFOD
# YSGOL O M EDWARDS 2026

# LLAWYSGRIFEN



# LLUN A STORI
# BLWYDDYN DERBYN

Eisac




Meredydd




Osian




# LLUN A STORI BLWYDDYN DERBYN

Meredydd







# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 1



# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 1

Rosina





Dewi Sant

Dyn da Oedd Dewi
Dyn da drod Gymru
Dyn da oedd yn dysgu
Pawb am Dduw ac Iesu
Dewch bawb i ddathlu
Dathlu nawddSant Cymru
A dathlwn gyda ngilydd
Ddydd Gŵyl Dewi Sant

# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 2



**LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 2**

Elena




# Dydd Gŵyl Dewi

Fe gofiwn Fawrth cyntaf,
Dydd Dewi ffrind y plant.
Y cymro fu'n pregethu
A parchwn ef ein sant.

cawn wisgo cennin pedr
Sy'n tyfu ar bob llaw
pan gilia oerni'r gaeaf
Y gwanwyn fydd gerllaw

Bydd cyngerdd yn yr ysgol,
Adroddwn am ein sant
A chanwn hen eididwon
A dawnio gyda'r tant.



# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 3

Bedwyr




Owi




Nansi



# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 3

Bedwyr




## Eisteddfod Ysgol – Llawysgrifen Orau


Ar gyfer ein Eisteddfod Ysgol, copïa'r gerdd Dydd Gwyl Dewi yn dy lawysgrifen orau ac efallai mai ti fydd yn ennill! Pob lwc!

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

### Dydd Gŵyl Dewi



Mae'r cennin yn wyrdd.
Mae'r blodau'n felyn.
Dydd Gŵyl Dewi heddiw.
Rydym yn hapus iawn!




Y ddraig goch yn rhuo.
Baner Cymru'n chwifio.
A phawb yn bloeddio canu:
"Cymru am byth!"



Cacen gri blasus.
Ffrindiau wrth y bwrdd.
Dydd Gŵyl Dewi hapus –
Diwrnod gorau'r flwyddyn!

# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 4





YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 4

Cal



Eisteddfod Ysgol - Llawysgrifen Orau

Ar gyfer ein Eisteddfod Ysgol, copïa'r gerdd **Dydd Gwyl Dewi** yn dy lawysgrifen orau ac efallai mai ti fydd yn ennill! Pob lwc!

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Dydd Gŵyl Dewi

Mae'r cennin yn wyrdd,
Maer blodau'n felyn,
Dydd Gwyl dewi heddiw,
Rydym yn hapus iawn!

Y ddraig goch yn rhuo,
Baner Cymru'n chwifio,
A phawb yn bloeddio canu:
"Cymru am byth!"

Cacen gri blasus,
Ffrindiau wrth y bwrdd,
Dydd Gŵyl Dewi hapus-
Diwrnod gorau'r flwyddyn!

# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 5


Elsbeth




Caron




Poppy




YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 5

## Elsbeth




# Eisteddfod Ysgol - Llawysgrifen Orau

Copïa'r gerdd **Breuddwydio yn y Dosbarth** gan **Catrin Dafydd** yn dy lawysgrifen orau er mwyn cystadlu yn yr Eisteddfod Ysgol. Pob lwc!

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Breuddwydio yn y dosbarth

Mae fy meddwl ymhell
Er fy mod i fan hyn;
Mae yno le gwell,
Mae yno le gwyn;
Dim beiro na phapur
Na llaw yn yr awyr,
Na chwrlio am ystyr
Na syllu yn syn.

Mae'r ffenest yn glir
A'r awyr yn iach;
Mae cwmwl braf, hir
Yn fy nghario o'm strach
I fyny i'r glesni
O gyrraedd y gwersi;
Does neb yno'n holi
na mwydro 'mhen bach

Mae'r syniau'n pellhau
A'r sgwennu'n dim byd;
Pob llyfr wedi'i gau,
Pob athro yn fud;
Rwy'n nes at yr heulwen
Uwch canopi'r dderwen,
Bron cyffwrdd â seren
Ac yn codi o hyd.


Mae'r cwmwl mor hardd,
Mor feddal, mor lân,
Rwyf innau yn fardd
Ynghanol y gwlân;
Mae sŵn tawelwch
I'm clustiau yn harddwch
A lluniau'r llonyddwch
Yn enfys o gân.

Yn sydyn, daw bys
Reit at flaen fy nhrwyn,
Rwyf innau yn gŵyn:
'Ymhle mae dy feddwl?'

Beth pe dwedwn i'r cwbwl
Am daith ar y cwmwl
I'r man melys, mwyn?

Catrin Dafydd

# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 6



# LLAWYSGRIFEN BLWYDDYN 6

Efan




Eisteddfod Ysgol – Llawysgrifen Orau

Copia'r gerdd **Breuddwydio yn y Dosbarth** gan **Catrin Dafydd** yn dy lawysgrifen orau er mwyn cystadlu yn yr Eisteddfod Ysgol. Pob lwc!

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Breuddwydio yn y dosbarth

Mae fy meddwl ymhell
Er fy mod i fan hyn;
Mae yno le gwell,
Mae yno le gwyn;
Dim beiro na phapur
Na llaw yn yr awyr,
Na chwilio am ystyr
Na syllu yn syn.

Mae'r ffenest yn glir
A'r awyr yn iach;
Mae cwmwl braf, hir
Yn fy nghario o'm strach
I fyny i'r glesni
O gyrraedd y gwersi;
Does neb yno'n holi
na mwydro 'mhen bach.

Mae'r symiau'n pellhau
A'r sgwennu'n ddim byd;
Pob llyfr wedi'i gau,
Pob athro yn fud;
Rwy'n nes at yr heulwen
Uwch canopi'r dderwen,
Bron cyffwrdd â seren
Ac yn codi o hyd.


Mae'r cwmwl mor hardd,
Mor feddal, mor lân
Rwyf innau yn fardd
Ynghanol y gwlân;
Mae sŵn tawelwch
I'm clustiau yn harddwch
A lluniau'r llonyddwch
Yn enfys o gân.

Yn sydyn, daw bys
Reit at flaen fy nhrwyn,
Rwyf innau yn gŵyn:
'Ymhle mae dy feddwl?'

Beth pe dwedwn i'r cwbwl
Am daith ar y cwmwl
I'r man melys, mwyn?

Catrin Dafydd

# GWAITH CELF



# CELF MEITHRIN

# Marged

3ydd



# CELF MEITHRIN

## Idris



2il

# CELF MEITHRIN

## Arthur

1af



# CELF DERBYN

## Meredydd

3ydd



YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# CELF DERBYN

## Eisac

2il



# CELF DERBYN

## Cianan

1af



YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# CELF BLWYDDYN 1

# Rosina

3ydd



# CELF BLWYDDYN 1

# Dyfan






# CELF BLWYDDYN 1

## Gruff

1af



# CELF BLWYDDYN 2

## Leo

3ydd



YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# CELF BLWYDDYN 2

## Elena






# CELF BLWYDDYN 2

## Mabli



1af



# CELF BLWYDDYN 3

## Wil






# CELF BLWYDDYN 3

## Tanwen






# CELF BLWYDDYN 3

## Owi

1af



# CELF BLWYDDYN 4

## Macie






CELF BLWYDDYN 4

# Cellan






# Celf Blwyddyn 4

Amy






# CELF BLWYDDYN 5

## Greta






# CELF BLWYDDYN 5

## Elsbeth






YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# Celf Blwyddyn 5

## Enfys






# CELF BLWYDDYN 6

## Lleucu






YSGOL O.M. EDWARDS
LLANUWCHLLYN

# CELF BLWYDDYN 6

## Leah



2il



# CELF BLWYDDYN 6

## Malen








# BARDDONIAETH

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 1



BARDDONIAETH
BLWYDDYN 1


Gruff




## Y Pengwiniaid

Roedd y pengwin gwyn
Yn y llyn.
A'r pengwin glas
Yn ennill y ras.
Roedd y pengwin melyn
Yn chwarae delyn.
A'r pengwin pinc
Yn golchi y sinc.
Roedd y pengwin du
Yn y tŷ,
A'r pengwin coch
Yn bwydo moch
Roedd pob pengwin
Yn chwerthin!

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 2




YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 2


Elena




Y Pengwiniaid

Roedd pob un pengwin
yn bwyta grawnwin.
Roedd y pengwin glan
wrth ymyl y tan.
A'r pengwin oer
yn gweld y lloer
Roedd y pengwin tew
Yn chwarae ar y rhew.
Roedd y pengwin tal
O'r enw Cal
A'r pengwin glas
Yn ennill y ras
Roedd y pengwin coch
Yn bwydo'r moch!
A'r pengwin hapus
Yn un cariadus.

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 3




YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 3

Tanwen





## O dan y dwr

Torrodd ein calonnau yn racs fel gwydr.
Roedd rhaid protestio.
Y swn plant yn chwarae yn dod i ben
Wynebau pawb yn ddagreuol.
Ergyd fawr i'n Cwm ni.
Roedd pawb yn dawel a dim siw na miw
i'w glywed
Ymadael ar y Cwm oedd rhaid
Nos da Cwm Tryweryn





# BARDDONIAETH BLWYDDYN 4





YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 4

## Mabon




### Tristwch Tryweryn



Sŵn bwrlwm yn y pentref,
A'r goleuni yn goleuo'r dyffryn.
Lerpwl a'u cynlluniau creulon.
Distawodd y sŵn,
A daeth y tywyllwch.





Dal i gofio sŵn y plant,
Dal i gofio'r ysgol a'r capel.
Tristwch yn lledu ar draws y llyn fel gwenwyn,
Hapusrwydd yn diflannu.

Ein cynefin yn gartref i'r pysgod,
Clywed sŵn y gloch yn canu yn yr awel.
Tryweryn nawr yn atgof.
Cofiwch Dryweryn, calon Cymru.



YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 5



# BARDDONIAETH BLWYDDYN 5

## Greta




**Y Bwystfil Bach Od**

Gorwedd yn fy ngwely clyd
a finnau'n teimlo'n gysglyd.
Cyn cau fy llygaid yn dynn
gwelaf lygaid yn edrych yn syn.

O fy mlaen daw bwystfil bach od
i sefyll yng nghanol y cysgod.
Roedd yn crynu fel deilen
yn edrych fel malwoden
a'i ben yn debyg i golomen.

Roedd ei gorff yn lwmpiau
a'i groen yn enfys o liwiau.
Roedd ei drwyn  yn bigog
a'i gorff yn symud yn fywiog.

Roedd yn arogli fel bîns
ac roedd yn taflu fferins.
Codais o'r gwely i nol y da-da,
ond gwenodd yn slei a dweud ta-ta.

Agorodd ei geg led y pen
a neidio'n uchel ar fy mhen.
Â'i ddannedd miniog yn cau amdanaf
roeddwn i'n dechrau ofni'n gwaethaf.

Ond cyn iddo fy mwyta i gyd,
deffrais yn fy ngwely clyd.
Ar fy mhen oedd Jos y ci,
yn gwenu'n braf arnaf i.

YSGOL O.M. EDWARDS LLANUWCHLLYN

# BARDDONIAETH BLWYDDYN 6

Dwi'm yn gwybod eto...




Heinz Beans




Ffrwchnedd Coch



# BARDDONIAETH BLWYDDYN 6

## Joseff




### Breuddwyd y Bocsiwr

Rwy'n cerdded mewn i'r cylch i baffio,
Dwi'n nerfus - dydi hyn ddim yn apelio.
Mae fy mhen yn troelli go iawn
ond dwi'n gwybod bod gen i'r ddawn.

Mae'r ymarfer yn teimlo werth o nawr -
codi i fynd fyny mynydd ar doriad y wawr.
Fy wyneb yn gwaedu ar ôl paffio cawr
Burpees a "sit ups" tan bo fi'n cysgu ar lawr.

Mae'r rownd gynta'n cychwyn.
Mae'r boi 'ma'n fy nychryn.
Mae o'n taflu bwledi
a mae fy nghoesau fel jeli.

Dwi'n dechrau ei guro,
pob dwrn yn ei flino.
Dwi'n mynd amdano
a dwi'n dal i ddal arno.

Dwi'n ei ddilyn rownd y cylch fel cysgod,
mae'r boen sydd ar y ffordd yn anorfod.
Dwi'n ei daro dro ar ôl tro
ond mae'n anodd ei guro.

Yn sydyn, mae fy nwrn yn cysylltu
ac mae'r dorf yn dechrau cynhyrfu.
Mae'n disgyn i'r llawr,
Dwi'n teimlo fel cawr.
Belt y pencampwr o amgylch fy nghanol
yn ddiweddglo campus i ornest syfrdanol.



1af JOSEFF

2il LEAH

3ydd LLEUCU








# EISTEDDFOD
# YSGOL O M EDWARDS 2026